

Gwneud cyn dysgu

“Ysgrifennais y llyfr cyntaf, Theoffilus, am yr holl bethau y dechreuodd Iesu eu gwneud a’u dysgu.” (adn. 1)

Beth am ddarllen Actau 1:1–11 ac yna myfyrio

Mae’n ddiddorol bod Luc yn dechrau’r hyn a alwn yn ‘Actau’r Apostolion’ drwy gyfeirio at y ffaith bod yr efengyl roedd wedi’i hysgrifennu yn sôn “am yr holl bethau y dechreuodd Iesu eu gwneud a’u dysgu.” Sylwch sut y cafodd y rhan hon o’r frawddeg ei ffurfio: “yr holl bethau y dechreuodd Iesu eu gwneud a’u dysgu”. Nid dim ond dysgu oedd gweinidogaeth Iesu’n ei chynnwys ond yn hytrach gwneud a dysgu. Datblygiad ar y gwneud oedd y dysgu, rhywbeth oedd ar waith oddi mewn iddo. Doedd e’n dysgu dim heb ei roi ar waith.

Roedd hyn yn rhoi nerth mawr i’w eiriau. Yn ei Efengyl, mae Luc yn dweud amdano: “Aeth pawb yn syn a dechreusant siarad â’i gilydd, gan ddweud, ‘Pa air yw hwn? Y mae ef yn gorchymyn yr ysbrydion aflan ag awdurdod ac â nerth, ac y maent yn mynd allan.’” (Luc 4:36). Roedd pobl eraill yn dyfynnu awdurdodau, ond pan oedd Iesu’n siarad roedd e’n siarad ag awdurdod Ei fywyd ei hun yn gefn i bopeth a ddywedai. Roedd yr hyn a ddysgai Iesu yn nerthol, nid yn unig oherwydd y pethau roedd yn eu dweud, ond oherwydd yr awdurdod ychwanegol a roddai i bopeth a ddywedai – awdurdod oedd yn dod o’i gywirdeb mewnol a harddwch ei ffordd o fyw. Roedd pobl nid yn unig yn clywed y Gair – roedden nhw’n ei weld ar waith. Roedd y neges yn llafar ond hefyd yn fyw ym mhob rhan o’i enaid. Roedd ei weithredoedd a’i eiriau wedi’u cyfuno â’i gilydd fel geiriau a cherddoriaeth cân. Dywedodd Dr E. Stanley Jones amdano:

“Nid rhywbeth yn cael ei orfodi ar fywyd oedd dysgeidiaeth Iesu ond rhywbeth oedd yn cael ei amlygu ohono. Dyna pam nad arwyddbost yn dangos y ffordd ydy Iesu – ef yw’r ffordd. Ac wrth ei ddilyn ef byddwn ninnau yn canfod ein bod ar y ffordd.”

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 118:19–21; Ioan 10:1–10; Actau 24:14; Heb. 10:19–25

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Ym mha dermau mae Iesu’n ei ddisgrifio’i hun?
2. Beth ydy’r anogaethau (h.y. ‘Gadewch inni’) mae’r awdur yn eu rhoi i’r Hebreaid?

Gweddi

O Dduw, mae hi mor hawdd canolbwyntio mwy ar y ddysgeidiaeth nag ar y gwneud. Dw i’n teimlo’r her yn hyn i gyd. Helpa fi i gadw’r pethau hyn mewn cydbwysedd, fel y gellid dweud amdanaf innau fod fy nysgeidiaeth yn deillio o’r m gweithredoedd. Yn enw Iesu. Amen.